Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (MAN I'R DE O GARNO I GLATTER, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU LLYDAN DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, rhwng Carno a Chlatter, Powys.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym ar 29 Chwefror 2016 ac yn parhau hyd 11 Mawrth 2016, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) ond gall rhywfaint o waith yn ystod y dydd fod yn ofynnol hefyd. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y gwaharddiad yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro gerbydau sydd yn fwy na 2.5 metr o led rhag mynd:

i. ar y darn o'r A470 i'r de o Garno sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2548 i ganolbwynt ei chyffordd â'r U4605; a

ii. ar y darn o'r A470 yng Nghlatter sy'n ymestyn o arwydd parhaol y terfyn cyflymder cenedlaethol ym mhen deheuol y pentref hyd at arwydd y terfyn cyflymder cenedlaethol ym mhen gogleddol y pentref.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A470 tua'r de-ddwyrain i Gaersŵs, yr A489 tua'r dwyrain i'r Drenewydd, yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain i'r Trallwng, yr A458 tua'r gorllewin i Fallwyd, yr A470 tua'r de i Lantwymyn a'r A470 tua'r de-ddwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A470 TRUNK ROAD (SOUTH OF CARNO TO CLATTER, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF WIDE VEHICLES) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road between Carno and Clatter, Powys.

It is expected that the temporary prohibition, which will be signed accordingly, will come into force on 29 February 2016 and remain until 11 March 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are mostly expected to take place overnight (19:00 – 06:00 hours) but some daytime working may also be required. Advance notice of the prohibition will be displayed approximately 2 weeks before the start of any works.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit vehicles with widths greater than 2.5 metres from proceeding in:

i. the length of the A470 south of Carno that extends from the centre-point of its junction with the U2548 to the centre-point of its junction with the U4605; and

ii. the length of the A470 at Clatter that extends from the permanent national speed limit sign at the southern end of the village to the national speed limit sign at the northern end of the village.

The alternative route for northbound vehicles will be via the south-eastbound A470 to Caersws, eastbound A489 to Newtown, north-eastbound A483 to Welshpool, westbound A458 to Mallwyd, southbound A470 to Cemmaes Road and south-eastbound A470: vice versa for southbound vehicles.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE